# Ordinhad 28
# Cyflwyno Hysbysiadau a Dogfennau

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 06 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 2.1

**Dyddiad adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

## ORDINHAD 28
## CYFLWYNO HYSBYSIADAU A DOGFENNAU

1. Gellir cyflwyno unrhyw hysbysiadau neu ddogfennau sy'n ofynnol gan y Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau, neu at ddibenion y Siarter, yr Ystatudau neu'r Ordinhadau, i unigolyn naill drwy eu rhoi yn bersonol neu eu hanfon drwy'r post at yr unigolyn i'r cyfeiriad diweddaraf a gofnodwyd gan y Brifysgol. Bydd anfon unrhyw hysbysiad neu ddogfen o'r fath yn cael ei gofnodi gan y swyddfa briodol. Os bydd hysbysiad neu ddogfen o'r fath yn methu â chyrraedd yr unigolyn dan sylw, ni fydd hynny'n golygu bod unrhyw drafodion, cyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill y mae'r hysbysiad neu'r ddogfen yn ymwneud â hwy yn annilys.

2. Bydd hysbysiadau ynghylch dod â chyflogaeth i ben yn cael eu cyflwyno naill ai drwy eu rhoi'n bersonol gan sicrhau y llofnodir amdanynt neu drwy eu hanfon drwy'r post cofrestredig neu ddanfoniad cofnodedig.

3. Os anfonir hysbysiadau neu ddogfennau eraill drwy'r post, bernir eu bod wedi'u cyflwyno yn briodol drwy gyfeirio llythyr yn briodol (gweler 1 uchod) a'i bostio, a'r llythyr hwnnw yn cynnwys yr hysbysiad neu'r ddogfen arall, a bernir eu bod wedi cael eu cyflwyno ar yr adeg pan fyddai'r llythyr yn cael ei ddosbarthu yn ôl yr arfer.